Google Hangouts

Gallwch ddefnyddio Hangouts i wneud y canlynol:

- Dechrau sgwrs.
- Gwneud galwadau ffôn gan ddefnyddio Wi-fi neu ddata.
- Anfon negeseuon testun gyda'ch rhif ffôn Google Voice neu Google Fi.

Mae Hangouts yn cydamseru'n awtomatig ar draws dyfeisiau. Os byddwch yn dechrau Hangout ar eich cyfrifiadur, gallwch barhau â'ch sgwrs ar ddyfais arall, fel eich ffôn.

Dechrau sgwrs:

1. Ar eich cyfrifiadur, ewch i hangouts.google.com neu agorwch Hangouts yn Gmail. Os oes gennych estyniad Hangouts Chrome, bydd Hangouts yn agor mewn ffenestr newydd.
2. Ar frig y dudalen, cliciwch ar 'New Conversation'.
3. Teipiwch a dewiswch enw neu gyfeiriad e-bost.
4. Teipiwch eich neges. Gallwch hefyd ychwanegu emojis a lluniau.
5. Ar eich bysellfwrdd, gwasgwch **Enter.**

Dechrau sgwrs fideo:

1. Ewch i hangouts.google.com neu agorwch Hangouts ar y bar ochr yn Gmail.
2. Dewiswch berson o'r rhestr Hangouts neu chwiliwch am ei enw neu gyfeiriad e-bost. Pan fyddwch yn dod o hyd i'r person rydych am sgwrsio ag ef, cliciwch ar ei enw. Gallwch hefyd glicio ar sawl person i ddechrau galwad fideo grŵp.
3. Cliciwch ar 'Video Call'📹.
4. Pan fyddwch chi wedi gorffen, cliciwch ar 'End Call'📞.

Ewch ati i gysylltu 😊